Senedd Cymru
**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

# Canllaw i fusnes cynnar y Cyfarfod Llawn ar ôl etholiad mis Mai 2021

Mai 2021

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

# Canllaw i fusnes cynnar y Cyfarfod Llawn ar ôl etholiad mis Mai 2021

Mae'r canllaw hwn yn ymwneud yn benodol â'r Cyfarfodydd Llawn sy'n dilyn etholiad y Senedd, cyn i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth wneud y datganiad a chyhoeddiad busnes cyntaf.

Mae'n cynnwys gweithdrefnau ar gyfer:

- cyflwyno cwestiynau yn y cyfnod yn syth ar ôl etholiad y Senedd

- y Cyfarfod Llawn cyntaf ar ôl etholiad y Senedd

- ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd

- enwebu'r Prif Weinidog

- y busnes y gellir ei drafod yn y Cyfarfod Llawn cyntaf ac yn y Cyfarfodydd Llawn dilynol

- y busnes yn dilyn penodi'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth.

# Cynnwys

A. Trefniadau ar gyfer cyflwyno cwestiynau yn dilyn etholiad y Senedd ............1

B. Hysbysu o Gyfarfod Llawn cynnar ............2

C. Y Cyfarfod Llawn cyntaf ar ôl etholiad Senedd ............3

Ethol y Llywydd ............3

Ethol y Dirprwy Lywydd ............5

Trefniadau ar gyfer cynnal pleidlais gudd ............5

D. Enwebu'r Prif Weinidog ............8

Galw cofrestr ............8

Canlyniad yr enwebiad ............9

E. Busnes y gellir ei gynnal mewn Cyfarfod Llawn cyn sefydlu'r Pwyllgor Busnes ............10

F. Busnes cynnar dilynol ............11

Penodi Aelodau i'r Pwyllgor Busnes ............11

Penodi Comisiynwyr y Senedd ............11

Penodi'r Cwnsler Cyffredinol ............11

Pwyllgorau'r Senedd ............12

# A. Trefniadau ar gyfer cyflwyno cwestiynau yn dilyn etholiad y Senedd

**1.** Bydd y Swyddfa Gyflwyno ar agor ar gyfer cwestiynau ysgrifenedig, cynigion, datganiadau barn a dogfennau a osodwyd ar ôl y Cyfarfod Llawn cyntaf. Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn hysbysu'r Aelodau o amseroedd agor unwaith y bydd dyddiad y cyfarfod cyntaf yn hysbys.

**2.** Yn unol ag adran 46 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (y Ddeddf), bydd y Prif Weinidog yn aros yn ei swydd nes i'r Prif Weinidog newydd gael ei benodi. Bydd pob cwestiwn ysgrifenedig a gyflwynir i'r Llywodraeth ei ateb ar ôl yr etholiad yn cael ei gyflwyno i'w ateb gan y Prif Weinidog nes y penodir Gweinidogion Cymru. Y dyddiad olaf ar gyfer ateb cwestiynau ysgrifenedig fydd pum niwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu cyflwyno.

**3.** I gael rhagor o wybodaeth, dylech ddarllen y Canllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd (paragraffau 12 i 53 ac atodiadau 1 a 2) neu cysylltwch â'r Swyddfa Gyflwyno: swyddfagyflwyno@senedd.cymru neu Owain Roberts (estyniad 6388/owain.roberts@senedd.cymru).

# B. Hysbysu o Gyfarfod Llawn cynnar

**4.** Rhaid i'r Cyfarfod Llawn cyntaf gael ei gynnal cyn pen 21 diwrnod o'r etholiad (adran 4 Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021).

**5.** Bydd dyddiad ac amser y Cyfarfod Llawn cyntaf yn cael ei bennu gan y Llywydd presennol (sy'n parhau i fod yn ei swydd nes bod Llywydd newydd yn cael ei ethol) mewn ymgynghoriad â'r grwpiau gwleidyddol (Rheol Sefydlog 12.7). Os bydd y Llywydd presennol yn amharod neu'n methu â gwneud hynny, bydd Clerc y Senedd (y Clerc) yn pennu'r dyddiad a'r amser.

**6.** Y Llywydd newydd fydd yn pennu dyddiad ac amser pob Cyfarfod Llawn wedi hynny, mewn ymgynghoriad â'r grwpiau gwleidyddol, nes i'r Pwyllgor Busnes gael ei sefydlu (a nes i'r Datganiad a Chyhoeddiad Busnes cyntaf gael ei roi yn y Cyfarfod Llawn gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth).

**7.** Rhaid i'r Clerc hysbysu'r Aelodau i gyd o'r dyddiad a'r amser o leiaf 24 awr cyn pob cyfarfod (Rheol Sefydlog 12.9). Gwneir hyn yn uniongyrchol drwy anfon e-bost; drwy grwpiau'r pleidiau; drwy hysbysiadau ar y fewnrwyd a thrwy gyhoeddi'r agenda ar y rhyngrwyd.


# C. Y Cyfarfod Llawn cyntaf ar ôl etholiad Senedd

**8.** Yn ystod y cyfarfod cyntaf hwnnw, bydd yn rhaid i'r Senedd ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd (Rheol Sefydlog 6.1).

## Ethol y Llywydd

**9.** Nodir y gweithdrefnau ar gyfer ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn Rheol Sefydlog 6. Caiff Aelod nad yw eto wedi tyngu'r llw teyrngarwch (nac wedi gwneud y cadarnhad cyfatebol) barhau i gymryd rhan yn y trafodion ar gyfer ethol y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd ond nid mewn unrhyw drafodion eraill yn y Senedd (adran 23 o'r Ddeddf).

**10.** Bydd y Llywydd yn cael ei ethol yn gyntaf, ac yna'r Dirprwy Lywydd. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer ethol Aelod i'r ddwy swydd yr un fath yn union ac fe'u hamlinellir dros y dudalen:


Y Cadeirydd yn galw am enwebiadau.
Rhaid i enwebiad gael ei eilio gan Aelod nad yw'n perthyn i'r un grŵp gwleidyddol â'r Aelod sy'n enwebu.
Yn yr achos annhebygol lle na fydd unrhyw Aelod yn debygol o gael ei enwebu'n ddilys, bydd y Cadeirydd yn gohirio'r cyfarfod. Pan fydd y cyfarfod yn ailddechrau, bydd y Cadeirydd yn galw eto am enwebiadau. Os nad oes ymgeiswyr o hyd sy'n cael cefnogaeth o'r tu allan i'r un grŵp gwleidyddol, bydd y Cadeirydd yn derbyn enwebiadau sy'n cael eu heilio gan Aelodau o'r un grŵp gwleidyddol â'r Aelod sy'n enwebu.
Os mai dim ond un enwebiad sydd, bydd y Cadeirydd yn cynnig bod yr Aelod a enwebir yn cael ei ethol.
Os bydd mwy nag un enwebiad, cynhelir pleidlais gudd.
Os bydd gwrthwynebiad, cynhelir pleidlais gudd.
Os na fydd gwrthwynebiad, caiff yr Aelod ei ethol.
Os enwebir dau Aelod, etholir yr Aelod sydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau yn y bleidlais.
Os enwebir mwy na dau Aelod, etholir yr Aelod sydd â mwy o bleidleisiau na'r cyfanswm ar gyfer yr holl ymgeiswyr eraill.

**11.** Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi canlyniad yr etholiad i'r Senedd. Bydd yr Aelod a etholir i fod yn Llywydd yn cadeirio unrhyw fusnes sy'n weddill ar agenda'r Cyfarfod Llawn, gan gynnwys ethol y Dirprwy Lywydd. Os nad yw'r Aelod a etholir yn Llywydd wedi cymryd y llw eto, nac wedi gwneud y cadarnhad cyfatebol, rhaid iddo wneud hynny cyn mynd i'r gadair.

## Ethol y Dirprwy Lywydd

**12.** Bydd y broses o ethol y Dirprwy Lywydd yn dilyn yn syth ar ôl i'r Llywydd a etholir fynd i'r gadair. Yn unol â Rheol Sefydlog 6.12, rhaid i'r Senedd beidio ag ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd o'r canlynol:

- yr un grŵp gwleidyddol;
- grwpiau gwleidyddol gwahanol y mae gan y ddau ohonynt rôl weithredol ynddynt; neu
- grwpiau gwleidyddol gwahanol nad oes gan y naill na'r llall rôl weithredol.

**13.** Gall unrhyw Aelod wneud cynnig i ddatgymhwyso'r rheol hon, cyn ethol y Dirprwy Lywydd (Rheol Sefydlog 6.13). Caniateir gwneud y cynnig heb hysbysiad, ond rhaid i o leiaf ddau o bob tri o'r Aelodau sy'n pleidleisio ei gefnogi.

**14.** Os yw'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd etholedig wedi hynny yn dod o fewn un o'r categorïau a restrir ym mharagraff 12 yn ystod y Senedd (ac nad yw'r naill na'r llall yn ymddiswyddo) gall unrhyw Aelod wneud cynnig yn y Cyfarfod Llawn nesaf y dylai'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd aros yn eu swyddi. Unwaith eto, rhaid i o leiaf ddau o bob tri o'r Aelodau sy'n pleidleisio gefnogi'r cynnig hwn (Rheol Sefydlog 6.14). Os na wneir, neu os na dderbynnir, cynnig o'r fath, rhaid i'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd ymddiswyddo.

## Trefniadau ar gyfer cynnal pleidlais gudd

**15.** Os bydd angen cynnal pleidlais gudd, bydd y Cadeirydd yn gohirio'r cyfarfod (am amser sydd i'w bennu gan y Cadeirydd). Fel rheol, cynhelir pleidleisiau cudd yn bersonol yn adeilad y Senedd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno y gellid defnyddio pleidleisio electronig (Rheol Sefydlog 34.14A) ar gyfer ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd, os oes angen. Y Llywydd fydd yn penderfynu ar y dull pleidleisio i'w ddefnyddio cyn y trafodion, a hysbysir yr Aelodau yn unol â hynny. Bydd trefniadau'r bleidlais gudd, ym mhob un o'r senarios, fel a ganlyn:

a. Pleidlais gudd gyda'r holl Aelodau'n bresennol:

- Cynhelir y bleidlais gudd yn un o'r ystafelloedd yn y Senedd neu yn Nhŷ Hywel. Bydd y tywyswyr ar gael i roi cyfarwyddiadau i'r Aelodau.
- Bydd ffurflenni pleidleisio yn cael eu hargraffu pan fydd enwau'r ymgeiswyr yn hysbys. Defnyddir lliw gwahanol ar gyfer pob cylch pleidleisio (os oes angen).
- Bydd yr Aelodau yn cael eu papurau pleidleisio wrth fynd i mewn i'r ystafell. Bydd eu henwau'n cael eu croesi oddi ar restr gan swyddogion Ysgrifenyddiaeth y Siambr.
- Bydd y pleidleisio'n digwydd mewn bwth pleidleisio. Rhoddir y papurau pleidleisio mewn blwch pleidleisio.
- Bydd y bleidlais yn para tan fydd pob Aelod wedi pleidleisio neu am 30 munud (pa un bynnag a ddaw gyntaf).
- Clerc y Senedd fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r broses bleidleisio a'r broses o gyfrif y pleidleisiau.

b. Pleidlais gudd yn cael ei chynnal yn electronig:

- Bydd ffurflenni pleidleisio electronig yn cael eu cwblhau pan fydd enwau'r ymgeiswyr yn hysbys.
- Gwahoddir Aelodau i gofrestru ar gyfer y bleidlais gudd drwy e-bost a anfonir i'w cyfeiriad e-bost a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Senedd. Bydd linc sydd wedi'i gynnwys yn yr e-bost yn cyfeirio Aelodau at ffurflen gofrestru electronig; bydd mynediad iddo yn cael ei gyfyngu i Aelodau'n unig. Bydd staff TGCh ar gael i helpu unrhyw Aelodau sy'n cael anawsterau wrth gofrestru.
- Ar ôl llenwi'r ffurflen gofrestru, bydd yr Aelodau'n derbyn linc i'r papur pleidleisio electronig.
- Bydd yr Aelodau'n cwblhau'r papur pleidleisio. Dim ond eu dewis ymgeisydd fydd yn cael ei gofnodi; ni fydd y system bleidleisio electronig yn cofnodi enw na chyfeiriad e-bost yr Aelod a gwblhaodd y papur pleidleisio.

- Bydd y bleidlais yn para tan fydd pob Aelod wedi pleidleisio neu am 30 munud (pa un bynnag a ddaw gyntaf).

- Bydd Clerc y Senedd yn gyfrifol am oruchwylio'r broses o ddosbarthu ffurflenni cofrestru a phapurau pleidleisio. Bydd y system bleidleisio electronig yn dangos i'r Clerc gyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd.

**16.** Os mai dim ond un enwebiad sydd ac nad oes gwrthwynebiad, bydd yr Aelod enwebedig yn cael ei ethol. Os oes gwrthwynebiad, gofynnir i'r Aelodau bleidleisio o blaid neu yn erbyn yr Aelod a enwebir. Os bydd sawl enwebiad, gofynnir i'r Aelodau ddewis yr ymgeisydd y maent yn ei ffafrio (neu ymatal).

**17.** Os bydd dau Aelod wedi'u henwebu a'r naill a'r llall wedi cael nifer gyfartal o bleidleisiau yn y bleidlais gudd, cynhelir rhagor o bleidleisiau cudd nes i un ymgeisydd gael mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd.


**18.** Os enwebir mwy na dau Aelod ac na fydd unrhyw Aelod yn derbyn mwy o bleidleisiau na chyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer yr holl ymgeiswyr eraill, bydd yr ymgeisydd (neu'r ymgeiswyr) sydd wedi derbyn y nifer lleiaf o bleidleisiau yn cael ei dynnu o'r broses. Cynhelir rhagor o bleidleisiau cudd nes i un ymgeisydd gael mwy o bleidleisiau na chyfanswm nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer yr holl ymgeiswyr eraill.

# D. Enwebu'r Prif Weinidog

**19.** Rhaid i'r Senedd enwebu Aelod i'w benodi'n Brif Weinidog cyn pen 28 diwrnod ar ôl etholiad Senedd (h.y. ar neu cyn 3 Mehefin 2021) (adran 47 o'r Ddeddf). Nodir y weithdrefn ar gyfer enwebu'r Prif Weinidog yn Rheol Sefydlog 8.

**20.** Gellir gwneud enwebiadau ar gyfer y Prif Weinidog yn ystod y Cyfarfod Llawn cyntaf ar ôl etholiad neu mewn unrhyw Gyfarfod Llawn dilynol cyn sefydlu'r Pwyllgor Busnes, yn amodol ar gytundeb y Senedd (Rheol Sefydlog 12.11). Bydd y Llywydd yn gwahodd y Senedd i gytuno y caiff enwebiadau eu gwneud. Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, gelwir pleidlais electronig. Bydd trafodion enwebu yn digwydd dim ond os bydd mwyafrif yr Aelodau sy'n pleidleisio yn cytuno â hynny.

**21.** Amlinellir y broses ar gyfer enwebu'r Prif Weinidog isod:




## Galw cofrestr

**22.** Os bydd angen cynnal pleidlais drwy alw cofrestr, bydd y Llywydd yn gofyn i bob un o'r Aelodau sy'n bresennol, yn nhrefn y wyddor, ddatgan enw'r ymgeisydd y maent yn ei ffafrio. Gall Aelodau ymatal. Ni chaniateir i'r Llywydd na'r Dirprwy Lywydd bleidleisio.

**23.** Os bydd dau Aelod wedi'u henwebu (neu os bydd dau ymgeisydd ar ôl wedi i'r gweddill gael eu tynnu o'r broses), a bod canlyniadau'r broses galw cofrestr yn gyfartal, bydd pleidlais drwy alw cofrestr yn digwydd eto (oni bai bod Aelod yn tynnu yn ôl). Caiff y Llywydd ohirio'r cyfarfod ar unrhyw adeg os yw'n credu bod hynny'n briodol.

**24.** Os bydd mwy na dau Aelod wedi'u henwebu ac os na fydd yr un ohonynt yn cael mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd, bydd yr ymgeisydd sydd â'r nifer leiaf o bleidleisiau yn cael ei dynnu o'r broses. Cynhelir rhagor o bleidleisiau drwy alw cofrestr nes i un ymgeisydd gael mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd.

## Canlyniad yr enwebiad

**25.** Bydd y Llywydd yn cyhoeddi'r canlyniad i'r Senedd. Bydd y Llywydd yn argymell i'w Mawrhydi y dylai'r Aelod a enwebir gan y Senedd gael ei benodi'n Brif Weinidog.

**26.** Mae'n bosibl y bydd y sawl a enwebir i'w benodi'n Brif Weinidog yn dymuno traddodi araith yn syth ar ôl yr enwebiad.

# E. Busnes y gellir ei gynnal mewn Cyfarfod Llawn cyn sefydlu'r Pwyllgor Busnes

**27.** Yn unol â Rheol Sefydlog 12.10, y math o fusnes y gellir ei gynnal yn y Cyfarfodydd Llawn cynnar hyn yw busnes y gellir ei gymryd heb rybudd o dan Reol Sefydlog 12.16 neu unrhyw fusnes y cytunwyd arno gan y Senedd.

**28.** Nid yw'r cyfnodau hysbysu arferol ar gyfer cyflwyno cynigion (o leiaf bum niwrnod gwaith cyn iddynt gael eu trafod) a gwelliannau (o leiaf dri diwrnod gwaith cyn trafod y cynnig) yn berthnasol i unrhyw gynigion sydd i'w trafod yn y Cyfarfodydd Llawn hyn (Rheolau Sefydlog 12.20 a 12.22).

# F. Busnes cynnar dilynol

## Penodi Aelodau i'r Pwyllgor Busnes

**29.** Ar ôl i'r Prif Weinidog benodi Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth, rhaid i'r Gweinidog hwnnw, cyn gynted ag y bo modd, gyflwyno cynnig i benodi Aelodau i'r Pwyllgor Busnes yn unol â Rheol Sefydlog 11.3. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at y Canllaw i'r Pwyllgor Busnes.

**30.** Rhaid i'r aelodaeth gynnwys y Llywydd ac un Aelod a enwebir gan bob grŵp gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd. Gall tri neu fwy o Aelodau, nad ydynt yn aelodau o grŵp gwleidyddol, ffurfio grŵp at ddibenion enwebu un o'i Aelodau i gael ei benodi i'r Pwyllgor Busnes. Rhaid i'r cynnig gael cefnogaeth o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio.

**31.** Bydd trefniant busnes wythnosol yn rheolaidd yn cychwyn gyda'r Datganiad Busnes a'r Cyhoeddiad cyntaf a wneir gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at y Canllaw i'r Cyfarfod Llawn.

## Penodi Comisiynwyr y Senedd

**32.** Rhaid penodi Comisiynwyr y Senedd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl yr etholiad (Rheol Sefydlog 7.1). Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd (ex officio) a phedwar Aelod arall (adran 27 o'r Ddeddf).

**33.** Rhaid i'r cynnig, a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes, gynnig enwau'r pedwar Aelod. I'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, dylai pob Aelod (ar wahân i'r Llywydd) fod yn perthyn i grŵp gwleidyddol gwahanol.

**34.** Os oes pedwar neu fwy o grwpiau gwleidyddol, rhaid i'r pedwar grŵp mwyaf hysbysu'r Pwyllgor Busnes pa Aelod o'u grwpiau a gaiff ei benodi i fod yn aelod o'r Comisiwn. Os oes llai na phedwar grŵp gwleidyddol, y Pwyllgor Busnes fydd yn penderfynu ar enw/enwau unrhyw Aelod/Aelodau ychwanegol. Os bydd gan ddau neu fwy o grwpiau gwleidyddol yr un nifer o aelodau, rhaid i'r Llywydd benderfynu pa un ohonynt sydd i'w ystyried fel yr un mwyaf, gan ystyried lefel y gefnogaeth etholiadol sydd gan bob un o'r grwpiau gwleidyddol dan sylw.

## Penodi'r Cwnsler Cyffredinol

**35.** Rhaid i'r Senedd gytuno ar argymhelliad y Prif Weinidog i'w Mawrhydi o ran y sawl sydd i'w benodi'n Gwnsler Cyffredinol (Rheol Sefydlog 9.1). Nid oes angen i'r sawl a argymhellir i'w benodi'n Gwnsler Cyffredinol fod yn Aelod o'r Senedd.

Rhaid i'r Prif Weinidog gyflwyno a gwneud y cynnig yn y Cyfarfod Llawn; ni chaniateir cyflwyno gwelliannau.

**36.** Bydd y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd yn gwahodd y Senedd i dderbyn y cynnig. Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, gelwir pleidlais electronig. Mae angen mwyafrif o'r Aelodau hynny sy'n pleidleisio.

## Pwyllgorau'r Senedd

**37.** Cyn gynted ag y bo modd ar ôl etholiad y Senedd, rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyflwyno cynnig neu gynigion yn awgrymu enwau a chylch gorchwyl y pwyllgorau, (Rheol Sefydlog 16.2). Wrth wneud hynny, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau:

- bod pob un o feysydd cyfrifoldeb y Llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus cysylltiedig yn destun gwaith craffu gan bwyllgor neu bwyllgorau;
- bod pob mater sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol yn destun craffu gan bwyllgor neu gan bwyllgorau; a
- lle bo hynny'n rhesymol ymarferol, fod cydbwysedd cyffredinol rhwng cyflawni'r cyfrifoldebau i:

i. archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi'r llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus cysylltiedig; ac

ii. archwilio deddfwriaeth.

**38.** Unwaith y bydd y pwyllgorau wedi'u sefydlu, rhaid i'r Senedd ystyried cynnig (neu gynigion) a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Busnes i gytuno ar ddyrannu cadeiryddion i grwpiau (Rheol Sefydlog 17).

**39.** Ar ôl cytuno ar ddyraniad y cadeiryddion, bydd y Senedd yn symud ymlaen i ethol y cadeiryddion. Bydd y Llywydd yn gwahodd enwebiadau; ar gyfer pob cadair, dim ond Aelod o'r grŵp gwleidyddol sydd wedi'i ddyrannu i'r gadair honno y gellir ei enwebu.

**40.** Os un enwebiad yn unig a geir, rhaid i'r Llywydd gynnig bod yr Aelod a enwebir yn cael ei ethol yn gadeirydd y pwyllgor. Os gwrthwynebir hynny, neu os ceir dau neu ragor o enwebiadau, rhaid i'r Llywydd drefnu bod yr etholiad yn cael ei gynnal drwy bleidlais gudd. Bydd manylion pellach am ethol cadeiryddion pwyllgorau yn cael eu cylchredeg cyn y Cyfarfod Llawn perthnasol.

**41.** Ar ôl i gadeiryddion gael eu hethol, bydd y Pwyllgor Busnes yn cyflwyno cynigion sy'n cynnig gweddill aelodau’r pwyllgorau.